CYNGOR SIR POWYS

GWEITHREDIAETH Y CABINET
4 Mawrth 2025

AWDUR YR ADRODDIAD:	**Y Cynghorydd Sir Sandra Davies** **Aelod y Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol**
TEITL YR ADRODDIAD:	**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2025-2030**
ADRODDIAD AR GYFER:	**Penderfyniad**

1. Diben

1.1 Nod yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft 2025-2030 (y Strategaeth).

2. Cefndir

2.1 Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rhoddodd y Safonau hyn ddyletswydd statudol ar bob cyngor yng Nghymru i wneud y canlynol:

- cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg,
- ystyried effaith eu polisïau ar y Gymraeg, a
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.

2.2 Mae'r safonau'n datgan bod rhaid inni lunio strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hybu'r Gymraeg ym Mhowys. Rhaid i'r strategaeth gynnwys y canlynol:

- targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir, a
- datganiad yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r targed hwnnw.

2.3 Fel sefydliad, rhaid inni adolygu'r Strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar ein gwefan. Roedd y strategaeth gyntaf yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2017 a 2022. Bydd y strategaeth ddrafft hon yn cwmpasu 2025-2030.

2.4 Mae data diweddaraf y Cyfrifiad (2021) yn dangos gostyngiad o 2.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, o 18.6% yn 2011 i 16.2% yn 2021. Ers Cyfrifiad 2001 bu gostyngiad o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys.

2.5 Mae'r Strategaeth yn amlinellu ein huchelgais i wyrdroi'r duedd hon a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ar 16.2% erbyn 2030. Nod fersiwn ganlynol y Strategaeth ar gyfer 2031-2035 fydd cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys i 20% erbyn 2035.

2.6 Mae gan y Strategaeth dri amcan sy'n dangos sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae gan bob amcan gamau gweithredu a mesurau a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd. Dyma'r amcanion:

- Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus
- Cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein gwaith mewnol
- Annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.

2.7 Mae'r Strategaeth yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor ar gyfer 2022 i 2032, ond nid yw'n ailadrodd ei gamau gweithredu. Nod Llywodraeth Cymru yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu siaradwyr newydd yn eu tyb nhw yw trwy addysg Gymraeg.

2.8 Mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r her o sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl iddynt adael yr ysgol a'i gwneud yn iaith sy'n ffynnu yn y gymuned.

3. Cyngor

3.1 Bod y Cabinet yn adolygu'r Strategaeth a chadarnhau eu bod yn cytuno â'r tri amcan. Yn benodol, i gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus, i gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg, ac annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid.

4. Goblygiadau Adnoddau

4.1 Byddwn yn cyflawni pob agwedd ar y Strategaeth drwy ein gweithlu sefydliadol a'n cyllidebau gwasanaeth presennol. Byddwn hefyd yn cydweithio â darparwyr allanol megis Mudiad Meithrin, mentrau iaith y sir (Menter Maldwyn, Menter Brycheiniog a Maesyfed), yr Urdd, a Chomisiynydd y Gymraeg i hybu'r iaith yn ein cymunedau.

Oherwydd yr argyfwng ariannol o fewn y Cyngor ar hyn o bryd bydd y cyllid sydd ar gael yn gyfyngedig. Bydd rhaid inni gynnal gweithgareddau o fewn cwmpas cyllidebau presennol.

4.2 Mae'r Pennaeth Cyllid (y Swyddog Adran 151) yn nodi y gellir cyflwyno'r Strategaeth o fewn yr adnoddau presennol ac y gall gefnogi'r argymhelliad.

5. Goblygiadau cyfreithiol

5.1 Cyfreithiol: Mae'r argymhelliad wedi'i gymeradwyo o safbwynt cyfreithiol. Bydd cyhoeddi'r Strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol trwy Safonau'r Gymraeg. Bydd yn osgoi ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg a allai arwain at ddifrod i'n henw da a dirwy bosibl.

5.2 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro wedi gwneud sylwadau fel a ganlyn: "Rwy'n nodi'r sylw cyfreithiol ac yn cefnogi'r argymhelliad."

6. Goblygiadau Newid Hinsawdd a Natur

6.1 Nid oes goblygiadau negyddol ar newid hinsawdd a natur.

7. Diogelu Data

7.1 Nid yw'r Strategaeth yn cynnwys prosesu data personol. Bydd unrhyw wybodaeth feintiol a ddarperir i aelodau allanol a fydd yn monitro cynnydd y Strategaeth mewn fformat cyfanredol dienw.

8. Sylw gan aelodau (au) lleol

8.1 Ni cheisiwyd sylwadau gan aelodau unigol, gan fod y Strategaeth yr un mor berthnasol i'r sir gyfan.

9. Asesiad Effaith

Mae'r Cynghorydd Sandra Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi cymeradwyo'r Asesiad Effaith.

10. Argymhelliad

Bod y Cabinet yn:

10.1 **Cymeradwyo'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ddrafft ar gyfer 2025-2030.**

Swyddog Cyswllt:
Siôn Rowley
Swyddog y Gymraeg
Ffôn: 01597 826040
E-bost: sion.rowley@powys.gov.uk

Pennaeth Gwasanaeth: Catherine James

Prif Weithredwr: Emma Palmer